

Alun Cairns AS

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

3 Mai 2019

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf

Diolch ichi am eich ymateb dyddiedig 10 Ebrill mewn perthynas â gwahoddiad y Pwyllgor i ddod i un o'i gyfarfodydd fel rhan o'i ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf.

Unwaith eto, mae'r Pwyllgor yn hynod siomedig nad ydych yn teimlo ei bod yn briodol ichi ddod i un o'i gyfarfodydd, ac mae'n fater sy'n peri cryn bryder iddo. Ar ben hynny, mae hyn yn dangos eich amharodrydd llwyr i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar fater arall sydd o bwys mawr i Gymru.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi anfon sawl gwahoddiad ichi fod yn bresennol mewn nifer o ymchwiliadau hynod bwysig, gan gynnwys y paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli cyllid yr UE yng Nghymru, Cyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014 a'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i hwyluso pethau ichi drwy gynnig trefnu cyfarfodydd yn Llundain neu drwy gynnal gynhadledd fideo ond rydych chi wedi gwrthod ein ceisiadau.

Rwy'n sylweddoli bod Deddf Cymru 2017 yn nodi yn y trefniadau adrodd blynyddol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn atebol i Senedd y DU a bod Gweinidogion Cymru yn atebol i'r Cynulliad. Fodd bynnag, hoffwn dynnu'ch sylw hefyd at **Nodyn 4 yn y Canllawiau ar Ddatganoli** sy'n datgan y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol "yn gweithredu fel gwarcheidwad y setliad datganoli yng Nghymru". Mae'r Nodyn yn mynd rhagddo fel a ganlyn:

"the Secretary of State has always presented the UK Government's policy on matters that are of significance to Wales even if lead responsibility is formally with one of his colleagues. This should remain the case for issues which have not been devolved but in which the Assembly has a strong interest either because matters which are its responsibility are affected by UK Government actions – eg negotiations with Europe on



the Assisted Areas map, Structural Funds and the CAP – or because it has responsibility for implementing all or part of UK policies – eg New Deal and Social Inclusion. ”

Fel Ysgrifennydd Gwladol, rydych yn gyfrifol am sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU wrth iddi wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar Gymru ac rydym yn teimlo'n gryf ei bod yn gwbl briodol ichi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ailystyried ein gwahoddiad ac, unwaith eto, byddem yn fodlon trefnu ichi gyfrannu drwy gynhadledd fideo pe bai angen.

Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon dod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei drafodaethau. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael:
<http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24564>

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 17 Mehefin 2019, i sicrhau y gallwn ystyried eich sylwadau wrth gyflwyno'n hadroddiad.



Yn gywir,

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

